# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Plws Ysgol Gwenffrwd**

**Ysgol Gwenffrwd**
**Stryd Chwitffordd**
**Treffynnon**
**CH8 7NJ**



## Dyddiad Cyhoeddi

**7 Awst 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Plws Ysgol Gwenffrwd wedi ei leoli ar dir Ysgol Gwenffrwd yn nhref Treffynnon, Sir y Fflint. Mae gan y gwasanaeth ei fynedfa ei hun, ei ystafelloedd pwrpasol ei hun gyda lle chwarae bach amgaeedig tu allan ac mae'n cael defnyddio cyfleusterau'r ysgol gynradd. Cofrestrwyd y gwasanaeth i ofalu am hyd at 47 o blant ar unrhyw un adeg. Mae'r gwasanaeth wedi ei gofrestru fel darpariaeth gofal dydd llawn ac mae'n cynnig nifer o wahanol sesiynau; sesiwn 'Dechrau'n Deg' i blant iau rhwng dwy i dair oed; sesiwn 'Meithrin Plws' i gynnig gofal cofleidiol i blant sy'n mynychu dosbarth meithrin yr ysgol, sesiwn 'Clwb Cinio' i blant dwy i dair oed a sesiwn 'Cylch' i blant tair oed hyd at oed dosbarth meithrin yr ysgol. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8:45am a 2:45pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Y personcofrestredig yw Lisa Hesketh a'r unigolion â gofal yw Bethan Humphreys, Rachel Bedford a Wiphawan Toone. Gweithredir y 'Cynnig Gweithredol' gan y gwasanaeth, sy'n sicrhau bod pob dull cyfathrebu a dogfennaeth ar gael yn hwylus i rieni drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw prif iaith y gwasanaeth.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn fodlon ac yn mwynhau eu cyfnod yn y gwasanaeth. Maent yn mynegi eu barn ac yn gwneud penderfyniadau'n hyderus ac maent yn gwybod y bydd eu dewisiadau'n cael eu parchu. Mae'r aelodau staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymatebol i'w hanghenion. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael defnyddio amrywiaeth o fannau addas tu mewn a thu allan sy'n ennyn eu diddordeb ac yn rhoi cyfle iddynt chwarae ac archwilio. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob perygl i ddiogelwch y plant yn cael ei nodi a bod camau'n cael eu rhoi ar waith i leihau neu i gael gwared ar y peryglon hyn fel y bo'n briodol. Ffurfiwyd cysylltiadau da gyda'r rhieni a phartneriaid allanol a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r gwasanaeth wedi gwella'r man chwarae tu allan. Ceir bellach amrywiaeth o fannau diddorol a chyffrous i blant gael chwarae, archwilio a datblygu eu sgiliau. Dywedodd y person â gofal wrthym hefyd eu bod yn bwriadu datblygu'r ardal hon ymhellach yn y dyfodol agos.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion yn ymwneud â goruchwyliaeth y staff ac enw'r gwasanaeth a gynhwysir mewn rhai polisïau.

# 1. Lles

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mwynhau eu cyfnod yn y gwasanaeth. Mae modd iddynt wneud dewisiadau a gwneud yr hyn y maent yn hoffi ei wneud. Mae'r plant wedi meithrin perthynas gadarnhaol gyda'r aelodau staff a'u cyfoedion ac maent yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu ac i ddatblygu eu sgiliau.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn cael gwneud dewisiadau ac yn teimlo bod yr aelodau staff yn gwrando arnynt.

Roedd rhyddid i'r plant chwarae gyda beth bynnag y mynnent. Yn y sesiwn Dechrau'n Deg, roedd gweithgareddau wedi eu gosod allan i'r plant eu dewis yn ystod y bore, er enghraifft toes chwarae, deunyddiau gwneud llun a gweithgaredd crefft. Roedd y plant yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau hyn, ond hefyd yn teimlo’n gyfforddus i fynd i nôl adnoddau eraill yn ôl eu dymuniad. Roedd y plant yn mynegi eu barn yn hyderus ac yn awyddus i gymryd rhan. Roedd pob ymgais i gyfathrebu yn cael ei gwerthfawrogi gan y staff ac roedd y plant yn hyderus y byddai'r aelodau staff yn gwrando arnynt. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn a allai beintio llun a chafodd gefnogaeth ar unwaith i nôl ffedog a phapur er mwyn iddo gael gwneud hynny. Gofynnodd grŵp arall o blant a fyddai modd iddynt chwarae yn yr hambwrdd tywod, a rhoddodd yr aelodau staff gymorth iddynt wneud hynny ar unwaith.

Mae'r plant yn teimlo bod modd iddynt fynegi eu hunain ac maent yn teimlo'n gyfforddus yn gwneud hynny.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Roedd modd i'r plant ofyn i'r aelodau staff am help pan oedd angen. Er enghraifft, yn y sesiwn 'Meithrin Plws' syrthiodd un plentyn cyn golchi ei ddwylo yn yr ystafell ymolchi. Estynnodd am aelod o staff yn syth a chafodd ei gofleidio a'i gysuro, a fu'n gymorth iddo dawelu'n gyflym. Drwy'r dydd roedd y plant yn dilyn trefn oedd yn gyfarwydd iddynt, a oedd yn rhoi ymdeimlad o ddiogelwch iddynt. Er enghraifft, yn y sesiwn 'Dechrau'n Deg', roedd yn amlwg bod y plant yn gyfarwydd â chân yr oedd yr aelodau staff yn ei chanu i ddangos ei bod yn bryd tacluso, ac roeddent yn ymuno yn y canu. Roedd y plant yn y sesiwn 'Meithrin Plws' hefyd yn amlwg yn gyfarwydd â'r gweithgaredd symud cyn cael byrbryd. Fe'u gwelwyd yn chwerthin, yn gwenu, yn canu ac yn copïo'r symudiadau, yn cael mwynhad mawr yn amlwg.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn derbyn gofal cyson gan aelodau staff y maent yn eu hadnabod yn dda.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn ffurfio cyfeillgarwch gyda'i gilydd ac yn dysgu i aros eu tro a rhannu.

Roedd y plant wedi ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'u cyfoedion ac roeddent yn hapus i rannu'r adnoddau ac aros eu tro. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn y sesiwn ’Dechrau’n Deg’ yn chwarae'n fodlon gyda'r ceir a'r garej. Roeddent yn hapus i rannu'r ceir ac aros eu tro i'w parcio yn y mannau parcio a'u rowlio i lawr y ramp. Roedd y plant yn y sesiwn 'Meithrin Plws' yn hapus i aros eu tro i fod yn glaf a meddyg wrth chwarae ysbyty. Roedd y plant yn awyddus i gynnwys eu ffrindiau yn eu chwarae drwy rannu ac aros eu tro heb anogaeth gan oedolion. Clywsom lawer o blant yn galw ar eu ffrindiau er mwyn eu cynnwys mewn gweithgareddau a rhannu eu cyflawniadau.

Mae'r plant wedi ffurfio perthynas gadarnhaol ac yn rhyngweithio'n dda gyda'u ffrindiau.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau.

Roedd y plant yn ymddiddori yn y gweithgareddau a gynigiwyd ac yn llawn brwdfrydedd naturiol i archwilio'r adnoddau a oedd ar gael. Roedd grŵp o blant yn mwynhau arbrofi gyda gwahanol gynwysyddion yn y pwll tywod tu allan. Roeddent yn canolbwyntio'n dda ar lenwi a gwagio'r bwcedi, tybiau a chynwysyddion eraill, gwneud cestyll tywod a thywallt y tywod drwy eu bysedd i ddysgu am ei deimlad. Gwelwyd y plant yn y sesiwn 'Dechrau'n Deg' yn mwynhau gwneud cacennau gyda thoes chwarae. Roeddent wedi ymgolli'n llwyr yn y gwaith o rowlio a thorri'r toes ac yn dilyn y cyfarwyddiadau a roddwyd gan aelod o'r staff i rowlio, gwasgu a phwyso'r toes gyda brwdfrydedd mawr. Ymddiddorai'r plant hefyd yn y gweithgareddau mwy strwythuredig oedd ar gael iddynt ac roeddent yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser. Roedd y plant yn canolbwyntio'n dda ar y bwrdd crefft ac yn dyfalbarhau'n dda gyda'r dasg o wneud lluniau a thorri baneri bychan allan cyn eu gludo i brennau lolipop.

Mae'r plant yn chwilfrydig, yn ymddiddori ac yn cael eu cyffroi gan weithgareddau sy'n eu galluogi i ddysgu a datblygu.

### 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Anogir annibyniaeth a rhoddir amser i'r plant ddysgu gwneud pethau wrth eu pwysau.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu a chyfarwyddo eu chwarae ac yn llawn brwdfrydedd naturiol ynglŷn â dewis gweithgareddau yn ôl eu dymuniad. Roedd yr adnoddau'n cael eu storio mewn ffordd oedd yn galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Anogwyd y plant i dacluso ar eu holau eu hunain yn ystod y cyfnodau o newid gweithgaredd ac fe'u hanogwyd hefyd i olchi eu dwylo a'u hwynebau eu hunain pan oedd angen. Yn ystod amser byrbryd yn y sesiwn 'Meithrin Plws' dewiswyd un plentyn i fod yn 'Helpwr Heddiw' a chafodd y dasg o ofyn i'w ffrindiau fynd i'r llinell i olchi eu dwylo ac yna i dywallt diodydd ei ffrindiau.

Mae'r plant yn hyderus ac yn frwd am eu bod yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu i wneud pethau drostynt eu hunain.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r aelodau staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn unol â hynny. Maent yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r aelodau staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn sicrhau eu bod yn cael eu diwallu. Darperir amrywiaeth o gyfleoedd i alluogi'r plant i ddatblygu a dysgu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r aelodau staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel.

Roedd yr aelodau staff yn gyfarwydd â pholisi diogelu'r gwasanaeth, a oedd yn gynhwysfawr ac wedi ei ddiweddaru'n ddiweddar. Roedd siart lif Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan wedi ei harddangos ar yr hysbysfwrdd yn y ddwy ystafell chwarae felly roedd modd i'r aelodau staff eu gweld yn rhwydd er mwyn cyfeirio atynt. Roedd y dogfennau a welsom yn dangos eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant, fodd bynnag mae'n rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd. Roedd yr aelodau staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Dangosai'r cofnodion fod ymarferion tân wedi eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau y gallai'r plant a'r aelodau staff adael yr adeilad mewn argyfwng. Roedd gan yr aelodau staff gymwysterau Cymorth Cyntaf Pediatrig cyfredol hefyd, sy'n golygu bod modd iddynt ddelio ag argyfyngau a mân anafiadau. Gwelwyd fod damweiniau a digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n briodol ac yn cael eu llofnodi gan y rhieni.

Hyrwyddwyd ffordd iach o fyw gan yr aelodau staff drwy ddarparu byrbrydau iach o ffrwythau a llysiau a thrwy annog y plant i ddod â chinio iach. Rhoddwyd digon o gyfleoedd i'r plant fod yn fywiog a threulio amser yn yr awyr iach. Roedd y plant i gyd yn cael y cyfle i chwarae allan yn ystod ein hymweliad ac roedd plant 'Meithrin Plws' hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd symud gydag arweiniad, a oedd yn sicrhau eu bod yn cael digon o ymarfer corff.

Mae'r aelodau staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn dilyn gweithdrefnau'n effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae'r aelodau staff yn helpu'r plant i ddysgu'r hyn a ddisgwylir ganddynt ac yn annog cwrteisi gyda strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Siaradodd yr aelodau staff gyda'r plant âchynhesrwydd a hoffter. Ymdriniwyd ag unrhyw ddadleuon neu ymddygiad diangen yn brydlon gyda dulliau cadarnhaol. Er enghraifft, cafodd dau blentyn anghytundeb bach ynglŷn â thegan deinosor a reolwyd o bell. Eglurodd aelod o staff iddynt yn ysgafn y câi'r ddau dro a thynnu sylw'r plentyn oedd yn gorfod

disgwyl ei dro drwy ennyn ei ddiddordeb mewn gweithgaredd arall. Roedd y staff hefyd yn batrwm o ymddygiad cadarnhaol ac yn helpu'r plant i ddysgu'r hyn a ddisgwyliwyd ganddynt. Roedd hyn yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Rhoddwyd digon o ganmoliaeth drwy'r dydd am ymddygiad cadarnhaol, am gwblhau gweithgareddau ac am roi cynnig ar bethau newydd. Clywyd yr aelodau staff yn dweud *'Pawen Lawen!'* cyn roi 'pump uchel*'* i'r plant ar ôl iddynt gwblhau gweithgareddau neu ddilyn cyfarwyddiadau. Roedd cwrteisi'n cael ei annog gydag anogaeth ysgafn hefyd a rhoddwyd canmoliaeth pan fyddai'r plant yn dweud '*os gwelwch yn dda'* neu *'diolch'.*

Mae'r aelodau staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad i annog plant i ymddwyn yn briodol a bod yn gwrtais.

## 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r aelodau staff yn deall ac yn ymwybodol o anghenion y plant yn eu gofal, maent yn ymatebol ac yn darparu amgylchedd meithringar.

Roedd yr aelodau staff yn darparu gofal mewn modd hamddenol ac yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn ymwybodol o anghenion unigol y plant a rhoddwyd camau ar waith er mwyn datblygu eu sgiliau unigol. Er enghraifft, yn y grŵp 'Meithrin Plws', dywedodd yr aelodau staff wrthym eu bod wedi gweithio gydag athro'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol er mwyn asesu cyfnod datblygiad pob plentyn a chynllunio gweithgareddau penodol yn seiliedig ar anghenion bob plentyn, megis darlunio siapiau penodol neu lythrennau, paru gwrthrychau a thorri allan.

Cynlluniwyd gweithgareddau ymlaen llaw yn unol â'r thema. Roedd y gweithgareddau'n amrywiol gyda chymysgedd o chwarae rhydd a gweithgareddau creadigol oedd yn annog archwilio a chwilfrydedd a mwy o weithgareddau penodol oedd yn datblygu sgiliau echddygol manwl, llythrennedd a rhifedd. Gofynnodd yr aelodau staff gwestiynau ynglŷn â'r gweithgareddau er mwyn galluogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a'u cyflwyno i eirfa newydd. Er enghraifft, nid Cymraeg oedd iaith gyntaf llawer o'r plant a chlywsom yr aelodau staff yn cyflwyno geirfa Gymraeg newydd iddynt drwy gydol y dydd yn ystod y chwarae. Tynnwyd lluniau er mwyn cadw cofnod o gynnydd y plant ynghyd â rhestr wirio arddatblygiad pob plentyn.

Mae'r aelodau staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion unigol.

# 3. Amgylchedd

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a bod y risgiau'n cael eu lleihau cymaint â phosibl. Mae'r adnoddau yn rhai o ansawdd dda ac mae bob rhan o'r lleoliad yn groesawgar a diddorol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn addas er mwyn cynorthwyo datblygiad y plant.

## Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a bod y plant yn ddiogel.

Gofynnwyd i ni lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gofynnwyd inni am wybodaeth adnabod. Cadwyd cofrestr ddyddiol o'r staff a'r plant oedd yn mynychu er mwyn gwneud yn siŵr bod enw pawb ar y rhestr yn achos argyfwng. Roedd drysau'r adeilad ar glo yn ystod y dydd, i atal unigolion heb awdurdod rhag mynd i mewn ac er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Roedd yr arweinwyr wedi nodi peryglon o fewn yr adeilad ac fe'u cynhwyswyd mewn asesiadau risg ysgrifenedig a oedd yn dangos sut roedd y risgiau'n cael eu rheoli a'u dileu lle bo modd. Roedd gwiriadau dyddiol o bob rhan o'r lleoliad hefyd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi gan yr aelodau staff cyn i'r plant gyrraedd y safle er mwyn sicrhau nad oedd peryglon newydd yn bresennol a bod yr amgylchedd yn lân ac yn ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod peryglon yn cael eu nodi a bod camau'n cael eu rhoi ar waith er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch y plant.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i anghenion y plant.

Roedd yr arweinwyr wedi defnyddio'r lle tu mewn yn dda drwy osod adnoddau a dodrefn mewn ardaloedd dysgu. Roedd hyn yn unol ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn rhoi cyfoeth o gyfleoedd i chwarae a dysgu. Roedd yr ystafelloedd chwarae'n olau, yn lliwgar ac yn groesawgar. Roedd samplau o waith celf a ffotograffau'r plant wedi eu harddangos ar y waliau, oedd yn rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Roedd digon o le i'r plant symud o gwmpas ac roedd eitemau'n cael eu storio a'u labelu'n dda gyda lluniau er mwyn i'r plant gael deall beth oedd wedi ei storio ym mhob bocs. Roedd y dodrefn a'r adnoddau i gyd yn addas i anghenion y plant; er enghraifft roedd uchder y byrddau a'r cadeiriau ym mhob un o'r ystafelloedd chwarae yn addas i'r plant gael eu defnyddio. Roedd y lle chwarae tu allan yn cynnig digon o fannau diddorol y gallai'r plant eu harchwilio'n ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael defnyddio amrywiaeth o adnoddau addas a bod digon o le i archwilio a chwarae.

## 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad i ystod eang o adnoddau o ansawdd dda.

Mae'r arweinwyr yn darparu teganau sydd mewn cyflwr da i'r plant ac sy'n addas i oedran a chamau datblygu'r plant. Gwelsom fod yr adnoddau'n lân ac mewn cyflwr da. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y teganau a'r adnoddau'n cael eu glanhau a chadarnhawyd hyn yn y cofnodion a welsom a oedd yn nodi pa bryd yr oedd y teganau wedi eu glanhau. Dangoswyd i ni hefyd fod Offeryn Archwilio Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ei gyflawni ar gyfer y gwasanaeth a bod hyn wedi ei adolygu'n ddiweddar. Roedd amrywiaeth eang o adnoddau amlddiwylliannol a Chymraeg ar gael, gan gynnwys doliau, llyfrau a phosteri, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Mae'r arweinwyr hefyd yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i archwilio deunyddiau naturiol. Er enghraifft, roedd cegin fwd ar gael yn y lle chwarae tu allan ac roedd y plant yn cael llawer o hwyl yn chwarae mewn car heddlu yr oeddent wedi ei wneud o focs cardbord.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn addas i anghenion y plant ac yn ehangu eu dysgu a'u datblygu.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod yr aelodau staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ond mae angen iddynt sicrhau bod yr aelodau staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i gael goruchwyliaeth ffurfiol. Cymerwyd camau i gasglu adborth a gwella arferion. Mae cysylltiadau da wedi eu ffurfio gyda rhieni a phartneriaid allanol, a chaiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn gweithredu tu hwnt i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd y polisïau a welwyd i gyd yn briodol ac wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Fodd bynnag, roedd y polisïau hyn yn defnyddio enw gwahanol i gyfeirio at y gwasanaeth yn hytrach na'r enw cofrestredig. Trafodwyd hyn gyda'r person â gofal a chynghori eu bod yn sicrhau bod enw'r gwasanaeth yn gyson drwy'r holl ddogfennaeth. Roedd yr aelodau staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithio o fewn polisïau'r gwasanaeth ac yn eu rhoi ar waith yn eu gwaith bob dydd. Er enghraifft, y polisi rheoli ymddygiad a'r polisi rheoli heintiau. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y person cofrestredig yn gefnogol iawn ac ar gael bob amser i helpu gyda digwyddiadau codi arian, ysgrifennu polisïau a threfnu digwyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu'r "Cynnig Gweithredol".

Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer eu gwasanaeth ac maent yn sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn gofyn am adborth ynglŷn â'u gwasanaeth gan yr aelodau staff, y plant a'r rhieni er mwyn gwella eu gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr wedi casglu adborth gan rieni a phlant. Roedd yr aelodau staff yn cael trafod eu safbwyntiau yn ystod cyfarfodydd staff a thrwy lenwi holiaduron. Gofynnwyd i'r rhieni hefyd lenwi holiaduron i fynegi eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth. Casglwyd adborth gan y plant ar lafar a thrwy arsylwadau cyffredinol yn ystod y sesiynau. Defnyddiwyd yr adborth hwn i ffurfio adolygiad o ansawdd gofal y gwasanaeth, a gyflwynwyd i ni eisoes fel rhan o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr wedi paratoi cynllun gweithredu er mwyn rhoi newidiadau ar waith ac er mwyn gwella arferion yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd.

Mae'r arweinwyr yn ymroddedig i wella eu gwasanaeth ac yn meddwl yn fyfyriol am eu harferion.

## 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn awyddus i sicrhau bod yr aelodau staff yn cael eu hyfforddi'n dda a'u bod yn cael cefnogaeth i ymgymryd â'u swyddogaethau'n effeithiol.

Roedd yr arweinwyr yn y broses o gwblhau arfarniadau blynyddol gyda'r aelodau staff er mwyn iddynt allu awgrymu unrhyw hyfforddiant y byddent yn hoffi ei ddilyn er mwyn gwella eu harferion. Gwelsom dystiolaeth o arfarniadau blynyddol blaenorol ond nid oedd unrhyw gofnodion ffurfiol bod unrhyw oruchwyliaeth arall yn digwydd. Cadarnhaodd y person â gofal a'r aelod o staff a siaradodd gyda ni eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu hanghenion hyfforddi ond nad oedd unrhyw gofnod ffurfiol yn cael ei gadw o'r trafodaethau hyn. Dylai'r arweinwyr sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r staff fynychu goruchwyliaeth ffurfiol er mwyn trafod unrhyw anghenion hyfforddi ac unrhyw faterion y byddent yn hoffi eu trafod. Dylid cadw cofnod o'r sesiynau hyn er mwyn cynllunio unrhyw hyfforddiant a sicrhau bod y materion a drafodir yn cael sylw.

Roedd ffeiliau'r rhan fwyaf o'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn dangos tystiolaeth bod gwiriadau recriwtio cadarn ar waith. Nid oedd ffeiliau dau aelod o staff a oedd wedi gweithio i'r gwasanaeth ers blynyddoedd lawer yn cynnwys manylion am eu hanes cyflogaeth llawn. Cynghorwyd y person â gofal i gynnwys yr wybodaeth hon. Darparwyd proses sefydlu gynhwysfawr i'r aelodau staff newydd ac roedd cyfleoedd hyfforddi rheolaidd ar gael i'r aelodau staff..

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rheoli, yn cefnogi ac yn trefnu aelodau staff yn ddigonol er mwyn gwella profiadau'r plant.

## 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod partneriaethau cadarnhaol yn bodoli rhwng yr aelodau staff, y rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth gyda'r rhieni'n effeithiol. Gwelsom dystiolaeth ar ffeil o wybodaeth a gasglwyd gan rieni ynglŷn ag agnhenion, hoffterau a chasbethau penodol y plant. Roedd gan yr aelodau staff berthynas gadarnhaol gyda'r rhieni a rhannwyd gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd llawlyfr y rhieni a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhieni'n deall y gwasanaeth a'r cyfleusterau a ddarparwyd fel eu bod yn ymwybodol o'r hyn yr oedd y gwasanaeth yn ei gynnig cyn i'w plentyn ddechrau mynychu. Roedd y rhieni a siaradodd gyda ni yn ganmoliaethus ynglŷn â'r staff ac yn mynegi bod modd iddynt drafod unrhyw faterion yn rhwydd, gan fod yr aelodau staff a'r person â gofal yn hawdd iawn mynd atynt. Dywedodd pob un o'r rhieni a siaradodd gyda ni fod eu plant wedi ymgartrefu'n dda yn y gwasanaeth. Cadarnhaodd un bod ei phlentyn wedi 'datblygu'n *sylweddol'* ers mynychu ac meddai un arall '*Mae fy mhlentyn wrth ei fodd yma'.*

Mae partneriaethau effeithiol wedi eu ffurfio rhwng y gwasanaeth a'r ysgol. Mae'r person cofrestredig presennol yn athro yn yr ysgol a dywedodd yr aelodau staff wrthym ei bod yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Roedd cofnodion o ddatblygiad y plant yn cael eu

rhannu gyda'r ysgol er mwyn sicrhau y gellid parhau i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol ar ôl iddynt symud i'r dosbarth meithrin. Dywedodd arweinydd sesiwn 'Meithrin Plws' wrthym eu bod yn gweithio'n agos gydag athro'r Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol i asesu anghenion unigol y plant. Roedd hyn yn galluogi'r aelodau staff i gynllunio'n effeithiol er mwyn datblygu sgiliau'r plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol er mwyn gwella lles y plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylai'r arweinwyr:

- Sicrhau bod enw'r gwasanaeth yn cael ei nodi'n gywir ar bob dogfen;
- sicrhau eu bod yn trefnu cyfleoedd rheolaidd i'r aelodau staff fynychu goruchwyliaeth ffurfiol ac arfarniadau blynyddol er mwyn trafod unrhyw anghenion hyfforddi ac unrhyw faterion y byddent yn hoffi eu codi. Dylid sicrhau bod cofnod o'r sesiynau hyn yn cael ei gadw er mwyn cynllunio unrhyw hyfforddiant a sicrhau bod y materion a drafodir yn cael sylw.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o amserlen arferol yr arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 21 Mehefin 2018 rhwng 9:35 a.m. a 2:05 p.m.

Gwnaethpwyd y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennau a pholisïau;
- edrych ar arferion ac arsylwi er mwyn gweld tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan yr aelodau staff;
- siarad gyda'r plant, yr aelodau staff, y person â gofal a thri rhiant;
- edrych ar y mannau a'r adnoddau a ddefnyddiwyd gan y plant ar ddiwrnod yr arolygiad;
- rhoi adborth manwl i'r person â gofal ynglŷn â'r hyn a ganfuwyd a'r hyn oedd angen sylw.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan www.cssiw.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Lisa Hesketh** |
| **Person â Gofal** | **Wiphawan Toone**<br>**Rachel Bedford**<br>**Bethan Humphreys** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **47** |
| **Ystod oedran y plant** | **2- 4 oed** |
| **Oriau agor** | **8:45 a.m. – 2:45 p.m. dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **4 Mai 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **21 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar i blant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion iaith a diwylliant Cymraeg y bobl sy'n defnyddio neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |